## P-04-661- Gwahardd Defnydd Ar-lein a Phleidleisio Electronig gan Aelodau Cynulliad yn Siambr y Senedd

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Sovereign Wales

### Geiriad y ddeiseb

*Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i sicrhau bod Aelodau'r Cynulliad yn cael eu gwahardd rhag defnyddio'r rhyngrwyd yn ystod sesiynau yn y Senedd, ac i sicrhau bod pleidleisio yn y Senedd yn cael ei wneud drwy ddangos dwylo, ar lafar neu ddefnyddio papur pleidleisio.*

### *Gwybodaeth ychwanegol*

*Galwn ar y Cynulliad Cenedlaethol i fynnu bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau gwasanaethau Cymraeg gwell gan yr holl sectorau preifat a gwirfoddol, sy'n dod o fewn cwmpas Mesur y Gymraeg 2011, drwy gydweithio gyda Chomisiynydd y Gymraeg i gyflwyno rheoliadau i'r Cynulliad Cenedlaethol cyn etholiadau'r Cynulliad yn 2016 neu ar yr adeg gynharaf bosibl.*

*Mae cannoedd o filoedd o bobl Cymru yn cael eu hamddifadu o wasanaethau Cymraeg sylfaenol bob dydd gan nifer fawr o gyrff, megis cwmnïau ffôn, band-eang, ynni, a thrafnidiaeth. Achosir yr anghyfiawnder cwbl ddiangen hwn oherwydd nad yw Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg wedi gweithredu'n llawn y pwerau sydd ganddynt o dan Mesur y Gymraeg, a basiwyd yn unfrydol gan y Cynulliad bron i bum mlynedd yn ôl. Mae*

*Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg felly yn rhwystro ewyllys ddemocrataidd pobl Cymru.*

*Credwn ymhellach y dylid diwygio Mesur y Gymraeg er mwyn cyflymu a symleiddio'r broses o osod Safonau'r Gymraeg ar gyrff a chwmnïau, sefydlu hawliau cyffredinol i'r Gymraeg, ac ymestyn sgôp y Mesur i weddill y sector breifat, gan gynnwys archfarchnadoedd a banciau.*

**Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- Gorllewin Caerdydd
- Canol De Cymru